

# NEWID GYDA'N GILYDD

# Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru

# Adroddiad Blynyddol 2017-18

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Lluniwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn unol â gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), fel y nodir yn Adrannau 33 i 35, Pennod 5 o'r Arweiniad Statudol:

*Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol baratoi adroddiad sy'n nodi i ba raddau y mae amcanion y bwrdd wedi'u cyflawni. Mae'n rhaid cyflwyno'r adroddiad hwn i Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid cyflwyno'r adroddiad cyntaf erbyn 1 Ebrill 2017.*

*Mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad, a dylai gynnwys y canlynol:*

- *Aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.*
- *Gwybodaeth am sut mae'r bwrdd wedi cyflawni ei amcanion, gan gynnwys gwybodaeth reoli ategol berthnasol (e.e. adroddiad ariannol ac adroddiadau cynnydd eraill).*
- *Manylion y trefniadau partneriaeth sydd ar waith i ymateb i'r asesiad ar y cyd o'r boblogaeth a'r meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys unrhyw grwpiau neu strwythurau ategol.*
- *Sut mae'r bwrdd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau, neu grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau (e.e. paneli dinasyddion).*
- *Gwybodaeth am sut mae'r trefniadau partneriaeth wedi cyfrannu at wella canlyniadau a darpariaeth gwasanaethau er mwyn ymateb i'r asesiad ar y cyd o'r boblogaeth a'r meysydd blaenoriaeth (gan gynnwys gwybodaeth am sut mae adnoddau wedi'u defnyddio'n effeithiol).*
- *Gwybodaeth am y ddarpariaeth statudol a ddefnyddiwyd - e.e. cytundeb Adran 33 (Deddf GIG (Cymru) 2006), neu drefniant anffurfiol sy'n seiliedig ar gytundeb ysgrifenedig.*

*Dylid cyhoeddi fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r adroddiad, a bydd angen ei gyfieithu i ieithoedd eraill yn dilyn cais rhesymol. Yn yr un modd, bydd angen creu fersiwn braille, fersiwn hawdd ei ddarllen ac ati yn dilyn cais rhesymol.*

Hefyd, mae'r Adroddiad yn adlewyrchu arweiniad ychwanegol ar lunio Adroddiadau Blynyddol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018. Mae hyn yn cynnwys newid i'r dyddiad cyhoeddi, sydd bellach yn 30 Mehefin bob blwyddyn.

# Cynnwys


Rhagair Tudalen 3

1. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Tudalen 5
2. Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru Tudalen 6
3. Cefnogaeth i'r Bartneriaeth Tudalen 8
4. Blaenoriaethau Strategol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Tudalen 9
5. Cronfa Gofal Canolraddol Tudalen 15
6. Cynllun Ardal Gorllewin Cymru Tudalen 19
7. Datblygu ymagwedd gyd-gynhyrchiol Tudalen 20
8. Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) Tudalen 21
9. Edych tuag at y dyfodol Tudalen 29

# Rhagair

Croeso i ail Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru, sy'n rhoi trosolwg o'n gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, a gyflawnwyd dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Wrth i'm cyfnod fel Cadeirydd y Bwrdd ddirwyn i ben, mae'n bleser gennyf ddweud ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol ers i ni gyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf ym mis Mawrth y llynedd. Yn yr Adroddiad hwnnw, fe wnaethom amlinellu blaenoriaethau strategol y Bwrdd a nodi nifer o ymrwymiadau yn erbyn bob un ac mae'r rhan helaethaf o'r rhain wedi'u cyflawni. Mewn ymateb i'n Hasesiad Poblogaeth, a gwblhawyd ym mis Mawrth 2017 hefyd, rydym wedi mabwysiadu blaenoriaethau pellach yng nghyswllt gofalwyr, y Gymraeg a'r gweithlu ac rydym wedi adnabod camau gweithredu penodol ar gyfer pob un, yn cynnwys ymrwymiad pwysig i ddatblygu strategaeth gweithlu integredig ar draws gofal cymdeithasol ac iechyd. Bydd hyn yn allweddol i gyflawni'r newid yr ydym oll am ei weld dros y blynyddoedd nesaf.

Rhan fawr o'n rhaglen oedd y gwaith a wnaed i sefydlu trefniadau cronfeydd ar y cyd ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn ar draws llywodraeth leol a'r GIG, gan fodloni gofyn statudol penodol o fewn Rhan 9. Er y bydd hyn yn drefniant rhithiol yn 2018-19, gyda phob partner yn cadw eu cyllidebau, am y tro cyntaf, bydd gennym gipolwg ar y cyd o fuddsoddiad ledled y rhanbarth ac, yn ogystal, byddwn yn derbyn adroddiadau gweithgaredd rheolaidd ar sail ranbarthol. Bydd hyn yn ein galluogi i gymharu perfformiad ledled Gorllewin Cymru a dysgu gwersi gan y naill a'r llall. Law yn llaw â hyn, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gontract gwasanaeth ar y cyd a threfniadau monitro integredig. Bydd y newidiadau hyn yn rhoi manteision amlwg i ddarparwyr cartrefi gofal ac, yn y pendraw, byddant yn ein helpu i weithio'n well gyda'n gilydd i wella ansawdd ac ystod y gofal sydd ar gael i bobl yn y rhanbarth.

Mae ffocws allweddol arall wedi bod ar atal, gyda gwaith wedi'i wneud i werthuso dulliau ledled Gorllewin Cymru, yn cynnwys yng nghyswllt Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a datblygu fframwaith atal rhanbarthol. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn ystyried deilliannau'r gwaith hwn dros y misoedd nesaf.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn ehangach ill dau wedi aeddfedu, gyda lefel gynyddol o onestrwydd ac ymddiriedaeth yn tanategu'r gwaith a wnawn ar y cyd. Mae ein Cynllun Ardal cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth ac sy'n nodi amcanion strategol clir a rennir ar draws ein sefydliadau, yn dyst i hyn. Yr hyn fydd yn allweddol i gyflawni'n llwyddiannus fydd ymgysylltu'n effeithiol gyda dinasyddion, darparwyr gofal, nid fel ôl-ystyriaeth ond drwy gydol y broses o newid, gan sicrhau y caiff y datrysiadau yr ydym yn eu mabwysiadu eu cynhyrchu ar y cyd a'u bod yn bodloni anghenion a dyheadau pawb ar draws ein cymunedau. Mae rôl ein defnyddiwr gwasanaethau a'n cynrychiolwyr gofalwyr gwych ar y Bwrdd yn hanfodol, ond, mae arnom angen fecanweithiau cadarn hefyd er mwyn ymgysylltu'n ehangach ac mae sefydlu'r rhain yn flaenoriaeth wrth i ni edrych tuag at y dyfodol.

Byddaf nawr yn trosglwyddo awenau'r Gadeiryddiaeth i'r Cynghorydd Jane Tremlett o Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae profiad eang Jane, a'i hymrwymiad i ofal sy'n seiliedig ar yr unigolyn, yn golygu ei bod mewn lle da i lywio'r cyfnod nesaf, fel y mae'r Bwrdd, er mwyn adeiladu ar ei sylfeini cryf yn 2018-19.



Sue Darnbrook

Y Cynghorydd
Jane Tremlett



# 1. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) i rym yn 2016. Mae'n rhoi fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gofal a chymorth yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- Cefnogi pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain
- Rhoi pobl wrth galon eu gofal a'u cymorth a rhoi llais iddynt yn nhermau'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn
- Cynnwys pobl wrth ddylunio a darparu gwasanaethau
- Datblygu gwasanaethau sy'n helpu i atal, oedi neu leihau'r angen am ofal a chymorth parhaus
- Hyrwyddo modelau darparu nid-er-elw megis mentrau cymdeithasol a chydweithfeydd
- Cydweithio ar draws asiantaethau wrth ddarparu gofal a chymorth ac integreiddio gwasanaeth lle bo hynny'n briodol

Mae Rhan 9 y Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gydweithredu gyda phartneriaid perthnasol yn cynnwys y GIG wrth ddarparu gofal a chymorth. Mae'n caniatáu sefydlu trefniadau partneriaeth a chyfuno adnoddau ar draws awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol er mwyn cyflawni swyddogaethau a rennir. Nod cydweithio'n effeithiol, yn y pendraw, yw bod y bobl sy'n derbyn gofal a chymorth y gallu dweud:

***'Fi sy'n cynllunio fy ngofal ac mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd i'm deall i, fy nheulu a'm gofalwyr, gan roi rheolaeth i mi, a dod â gwasanaethau ynghyd i gyflawni'r deilliannau sy'n bwysig i mi'.***

Hefyd, mae Rhan 9 yn gofyn am sefydlu Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ym mhob un o'r ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol ledled Cymru. Gan ddwyn ynghyd gynrychiolwyr ar lefel uchel o asiantaethau partner ar draws y sectorau statudol, annibynnol a'r trydydd sector yn eu hardal, mae'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol yn bennaf gyfrifol am:

- Wella deilliannau i bobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr
- Hyrwyddo integreiddio gwasanaethau allweddol e.e. ar gyfer pobl hŷn, anableddau dysgu, gofalwyr a phlant ag anghenion dwys
- Sefydlu trefniadau partneriaeth ar gyfer gwasanaethau penodol a chefnogi cronfeydd ar y cyd lle bo hynny'n briodol
- Sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle i fodloni dyletswyddau statudol craidd dan y Ddeddf, megis darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac adfocatiaeth

# 2. Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru

Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru ym mis Mehefin 2016. Mae'r ardal y mae'r Bwrdd yn ymdrin â hi yn cyd-fynd â ffin Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac mae'n cynnwys ardaloedd cynghorau Sir Caerfyrddin, Ceredigion a Sir Penfro.

Mae aelodaeth y Bwrdd (gweler Ffigwr 1) yn rhagori ar y gofynion isaf statudol sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf; er enghraifft, drwy gael Aelodau Cabinet o'r tri awdurdod lleol o amgylch y bwrdd, lle mae'r Ddeddf yn gofyn am un yn unig. Yn ogystal, mae gennym ddau ddefnyddiwr gwasanaethau ar y Bwrdd; un yw'r gofyn statudol. Ar hyn o bryd, mae gennym un sedd wag ar gyfer cynrychiolydd trydydd sector cenedlaethol, yn sgil ymddiswyddiad Tracy Price ym mis Hydref 2017. Edrychwn ymlaen at lenwi'r sedd hon cyn gynted â phosib.

**Ffigwr 1**

| | |
|---|---|
| Sue Darnbrook (Cadeirydd) | Cyfarwyddwr Strategol Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw, Cyngor Sir Ceredigion |
| Jonathan Griffiths | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden, Cyngor Sir Penfro |
| Steven Griffiths | Cynrychiolydd gofalwyr |
| Judith Hardisty | Is-gadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Y Cynghorydd Tessa Hodgson | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Penfro |
| Y Cynghorydd Catherine Hughes | Aelod Cabinet dros Ofal, Sicrwydd a Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ceredigion |
| Sarah Jennings | Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwasanaethau Corfforaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Hazel Lloyd Lubran | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion |
| Melanie Minty | Swyddog Polisi, Fforwm Gofal Cymru |
| Jake Morgan | Cyfarwyddwr Cymunedau, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Jill Paterson | Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymuned a Gofal Hirdymor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Alan Thomas | Cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaethau |
| Cathryn Thomas | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gofal Cymdeithasol Cymru |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Tremlett (Is-gadeirydd) | Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| James Tyler | Cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaethau |

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu cymorth priodol i holl aelodau'r Bwrdd i sicrhau eu bod yn glir ynghylch eu rôl ac wedi'u grymuso i gyfrannu'n ystyrlon i'w waith. Yn 2017-18 rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gefnogi'r cynrychiolwyr defnyddwyr a gofalwyr drwy gyfres o sesiynau briffio arbennig cyn cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd, yn ogystal â sesiynau adrodd yn ôl wedi hynny. Byddwn yn edrych ar ehangu hyn dros y flwyddyn nesaf drwy gyfres o sesiynau datblygu gyda hwyluswyr allanol ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd.

***"Drwy fod ar y bwrdd, rwy'n helpu i lais y defnyddwyr gael ei glywed"***

James Tyler, cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth

***"Mae bod yn rhan o'r bwrdd yn rhoi boddhad mawr, gan wybod bod pobl uwch i fyny na fi wir yn gwrando ar ddefnyddwyr y gwasanaethau y maent wedi'u dylunio ar y eu cyfer"***

Alan Thomas, cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod tua unwaith bob deufis. Yn 2017-18, cynhaliwyd cyfarfodydd ar 19 Mai 2017, 28 Gorffennaf 2017, 27 Hydref 2017 a 16 Chwefror 2018. Bu raid canslo cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar 8 Rhagfyr 2017 oherwydd y rhagwelwyd na fyddai llawer yn bresennol.

Mae rhaglenni a chofnodion yr holl gyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd drwy'r ddolen isod: [http://www.wwcp.org.uk/west-wales-regional-partnership-board-agendas-and-minutes/](http://www.wwcp.org.uk/west-wales-regional-partnership-board-agendas-and-minutes/)

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi sefydlu Bwrdd Gweithredol Cysgodol sy'n cynnwys aelodau'r Bwrdd sy'n swyddogion o bob un o'r asiantaethau partner statudol, sy'n hwyluso gwneud penderfyniadau ar y cyd yng nghyswllt dyletswyddau penodol ynghylch partneriaeth a chydweithredu a gyflwynir i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol a'r awdurdodau lleol gan y Ddeddf. Bydd y Bwrdd Cysgodol yn goruchwylio'r gronfa gyfun rithiol ar gyfer cartrefi gofal a fydd yn weithredol o fis Ebrill 2018. Byddwn yn ceisio cadarnhau'r trefniadau hyn dros y flwyddyn nesaf, gan ddefnyddio pwerau dan Ran 9 y Ddeddf, fel y gallent roi isadeiledd cadarn ar gyfer partneriaethau ariannu ac integredig dan gyfarwyddyd y Bwrdd.


Mae cyfres o fyrddau rhaglen yn eistedd o dan y Bwrdd, ac mae pob ohonynt yn rhoi trosolwg o ffrydiau gwaith penodol (gweler Adran 4 isod am ragor o fanylion). Mae ein Bwrdd Cyflawni Rhaglen Integredig yn dwyn ynghyd uwch reolwyr o'r holl asiantaethau partner i ystyried holl agweddau rhaglen y bartneriaeth, adnabod

cysylltiadau strategol ar draws ffrydiau gwaith ac ystyried blaenoriaethau'r dyfodol. Mae fforwm rhanbarthol pwrpasol wedi'i sefydlu i oruchwylio cyflawni rhaglenni a ariennir drwy'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) yng Ngorllewin Cymru.

Mae ein strwythur llywodraethu cyfredol wedi'i nodi yn Ffigwr 2 isod.

### Ffigwr 2

**Llywodraethu Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru**




# 3. Cefnogaeth i'r Bartneriaeth

Mae Rhan 9 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bartneriaid ddarparu adnoddau digonol i gefnogi gwaith y partneriaethau rhanbarthol. Yng Ngorllewin Cymru, mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin Uned Cydweithredu Rhanbarthol fechan sydd:

- Yn rhoi cyngor a chefnogaeth strategol i'r Bwrdd ac yn gwasanaethu ei gyfarfodydd
- Yn darparu rheolaeth rhaglen i amrywiaeth o weithgareddau ledled y rhanbarth yn cefnogi'r blaenoriaethau y mae'r Bwrdd wedi'u hadnabod (gweler isod)
- Yn cydlynu'r rhaglen Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) ranbarthol

Caiff yr Uned Cydweithredu Rhanbarthol ei hariannu gan Gronfa Partneriaeth Ranbarthol, sef cronfa ranbarthol sydd wedi'i ffurfio o:

- Arian oedd ar gael yn wreiddiol drwy Grant Cyflawni'r Agenda Trawsnewid Llywodraeth Cymru a drosglwyddwyd i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw yn 2017-18, a
- Chyfran fechan o'r ICF

Darparir rhagor o wybodaeth am yr ICF yn Adran 5.

# 4. Blaenoriaethau Strategol y Bwrdd

Yn 2016, mabwysiadodd y Bwrdd bum blaenoriaeth strategol, fel a ganlyn:

- Comisiynu Integredig
- Integreiddio gwasanaethau a chronfeydd ar y cyd
- Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth/Atal
- Gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu


Yn ymateb i'r Asesiad Poblogaeth a gynhaliwyd yn 2016-17, mabwysiadwyd dwy flaenoriaeth ychwanegol, fel a ganlyn:

- Gofalwyr
- Y Gymraeg

Mae magu gweithlu cynaliadwy sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol yn allweddol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u hadnabod. Yn unol â hynny, mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu 'y gweithlu' fel y flaenoriaeth strategol olaf, gydag ymrwymiad i weithio ar draws sectorau i ddatblygu a chyflawni Strategaeth Gweithlu integredig ar gyfer gofal a chymorth yng Ngorllewin Cymru.

Mae'n amlwg fod pob un o'r blaenoriaethau yn dibynnu ar y naill a'r llall, fel sydd wedi'i ddarlunio yn Ffigwr 3. Yr hyn sy'n gyffredin wrth yrru pob un o'r blaenoriaethau yw cadw dinasyddion wrth galon popeth a wnawn.

### Ffigwr 3




Mae'r Bwrdd wedi nodi noddwyr o fewn ei aelodaeth ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau i ddarparu arweinyddiaeth strategol gyson, atebolrwydd clir a ffocws cyson ar gyflawni, gyda'r byrddau rhaglen unigol yn goruchwylio'n weithredol.

Mae'r rhaglenni'n cael eu symud ymlaen o fewn y cyd-destun ehangach sydd wedi'i osod gan fentrau rhanbarthol megis rhaglen 'Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol' Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (cewch ragor o wybodaeth yn: http://www.google.com/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=1&cad=rja&uact=8&ved=0ahUKEwjLxY-0rb3bAhXKvxQKHSS1AK0QFggsMAA&url=http%3A%2F%2Fwww.wales.nhs.uk%2Fsitesplus%2F862%2Fpage%2F92263&usg=AOvVaw0JXY3mjQlRR7rrsX4PTS3x) a gyrwyr cenedlaethol yn cynnwys yr adroddiad diweddar o'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal yng Nghymru (sydd ar gael yn: https://www.google.com/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=2&cad=rja&uact=8&ved=0ahUKEwj-vpDRrb3bAhWGxxQKHSyaDkEQFgguMAE&url=https%3A%2F%2Fbeta.gov.wales%2Fsites%2Fdefault%2Ffiles%2Fpublications%2F2018-01%2FReview-health-social-care-report-final.pdf&usg=AOvVaw1lwuab1_tJDIi_Jtjq3gUN)

Yn ein Hadroddiad Blynyddol yn 2016-17, fe wnaethom osod amcanion lefel uchel ar gyfer pob un o'r pum blaenoriaeth strategol wreiddiol ac adnabod y camau nesaf ar gyfer pob un. Mae'r cynnydd hyd heddiw yn erbyn y camau hyn wedi'i nodi isod. Mae ein cyflawniadau dros 2017-18 yn rhoi sylfaen gref y gallwn adeiladu arni wrth i ni fwrw ymlaen â'r blaenoriaethau hyn dros y flwyddyn ariannol nesaf.

## Comisiynu integredig

| Fe ddywedom y byddem yn | Rydym wedi |
|---|---|
| • Datblygu neu adolygu datganiadau rhanbarthol o fwriad ar gyfer gwasanaethau allweddol | • Adolygu'r Datganiad o Fwriad ar gyfer Gwasanaethau Anableddau Dysgu fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu |
| • Datblygu cynllun ardal rhanbarthol mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth | • Cyhoeddi ein Cynllun Ardal cyntaf (gweler adran 6) |
| • Llunio rhagor o ddatganiadau sefyllfa'r farchnad ranbarthol | • Comisiynu datblygu datganiad sefyllfa'r farchnad rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Anableddau Dysgu, sydd ar fin ei gwblhau ac a gaiff ei gyhoeddi yn haf 2018 |
| • Symud tuag at gontractau gwasanaeth rhanbarthol<br>• Datblygu safonau gofal rhanbarthol a fframweithiau sicrhau ansawdd, yn cynnwys uwchgyfeirio pryderon | • Alinio contractau presennol ar gyfer cartrefi gofal i oedolion hŷn, polisïau cefnogol a fframweithiau sicrwydd ansawdd fel cam dros dro cyn mabwysiadu un contract rhanbarthol o fis Ebrill 2019<br>• Ymrwymo i drafodaethau pellach ar draws yr asiantaethau partner ynghylch dichonoldeb integreiddio swyddogaethau comisiynu ar lefel ranbarthol |
| • Datblygu dull rhanbarthol o 'dyfu' menter gymdeithasol, cydweithfeydd, gwasanaethau dan | • Gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol yn cynnwys Canolfan Gydweithredol Cymru ac yn rhanbarthol gyda Chynghorau |

| Fe ddywedom y byddem yn | Rydym wedi |
|---|---|
| arweiniad defnyddwyr a gwasanaethau trydydd sector | Gwirfoddol y Siroedd i sgopio dulliau posib<br>• Cynnal asesiad manwl o gyfraniad y trydydd sector i waith atal a gwytnwch cyffredinol y sector yng Ngorllewin Cymru<br>• Adnabod camau gweithredu i gynyddu gwytnwch y sector, i'w hystyried gan y Bwrdd yng ngwanwyn 2018<br>• Ymrwymo mewn egwyddor i sefydlu 'hwb' trydydd sector rhanbarthol, yn gweithio law yn llaw â'r Cynghorau Gwirfoddol i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn dros y cyfnod nesaf |
| • Sefydlu fforwm darparwyr strategol ar gyfer y rhanbarth i gefnogi sgwrs barhaus gyda darparwyr am fodelau gwasanaeth y dyfodol a sut y gellid eu gweithredu o bosib | • Ymgysylltu â darparwyr ynghylch rôl bosib a gweithrediad fforwm o'r fath<br>• Datblygu cynnig wedi'i gostio ar gyfer 'Fforwm Arloesedd', i'w ystyried gan y bwrdd yng ngwanwyn 2018 a'i weithredu erbyn yr haf |
| • Meithrin sgiliau drwy raglenni hyfforddi a datblygu rhanbarthol | • Comisiynu'r *New Economics Foundation* i ddarparu modiwl hyfforddiant cychwynnol ar gomisiynu yn seiliedig ar ddeilliannau drwy gyd-gynhyrchu, a gynhaliwyd yn gynnar yn 2018<br>• Dechrau gweithio gyda rheolwyr hyfforddiant yn yr awdurdodau lleol i ddatblygu rhaglen hyfforddiant barhaus ar gyfer 2018-19 |

## Integreiddio gwasanaethau a chronfeydd ar y cyd

| Fe ddywedom y byddem yn | Rydym wedi |
|---|---|
| • Bwrw ymlaen â'r gwaith o integreiddio gwasanaethau pobl hŷn yn Sir Gaerfyrddin a sefydlu trefniadau cronfeydd ar y cyd | • Cytuno i weithredu'r Llwybr Integredig ar gyfer Pobl Hŷn (IPOP) yn Sir Gaerfyrddin, gan ddarparu mecanwaith i ddatblygu modelau integredig, newydd o ofal ar draws y llwybr<br>• Cytuno i sefydlu peilot tebyg yn Sir Benfro |
| • Sefydlu trefniadau cronfeydd ar y cyd ar gyfer swyddogaethau | • Sefydlu trefniadau ar gyfer cronfa gyfun ranbarthol rithwir ar gyfer |

| Fe ddywedom y byddem yn | Rydym wedi |
|---|---|
| cartrefi gofal i bobl hŷn ledled y rhanbarth | cartrefi gofal i bobl hŷn, fel cam cyntaf tuag at gronfa gyfun gwbl weithredol ar gyfer holl gartrefi gofal oedolion a fydd yn ei lle o fis Ebrill 2019 |
| • Ystyried cyfleoedd pellach i integreiddio a chyfuno arian mewn meysydd gwasanaeth eraill | • Adnabod meysydd eraill ar gyfer integreiddio gwasanaethau a chronfeydd ar y cyd, yn cynnwys Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd Integredig, anghenion dwys a Gwasanaethau Offer Cymunedol. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r meysydd hyn yn 2018-19. |

## Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth/Atal

| Fe ddywedom y byddem yn | Rydym wedi |
|---|---|
| • Lansio porth gwybodaeth Dewis yn rhanbarthol a'i hyrwyddo ledled y sectorau a datblygu cynllun gweithredu canoldymor i wreiddio'r ddolen a'i chysylltu â mentrau eraill megis 111 a Systemau Gwybodaeth i Deuluoedd | • Darparu adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid wrth gyflymu'r broses o fewnbynnu gwybodaeth ar Dewis a chyfarwyddiadur gwasanaethau'r trydydd sector, Infoengine<br>• Datblygu cysylltiadau technegol rhwng Dewis a Infoengine i alluogi rhannu gwybodaeth gwasanaeth ar draws y systemau<br>• Sefydlu Grŵp Dewis/ Infoengine rhanbarthol i ddatblygu cynllun gweithredu canoldymor<br>• Ymrwymo i lansiad ffurfiol o Dewis/ Infoengine yn 2018-19 |
| • Datblygu safonau rhanbarthol cyson i wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a gwerthuso dulliau gwahanol ledled y rhanbarth | • Comisiynu asesiad manwl o wasanaethau ataliol yng Ngorllewin Cymru, yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, a datblygu fframwaith atal rhanbarthol wedi'i gefnogi gan safonau cyson. Canfyddiadau i'w hystyried gan y Bwrdd yng ngwanwyn 2018 |

## Gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

| Fe ddywedom y byddem yn | Rydym wedi |
|---|---|
| • Cynnal arfarniad llawn o'r opsiynau ar gyfer gweithredu'r system ledled y rhanbarth | • Cynnal arfarniad opsiynau cychwynnol a datblygu cynllun gweithredu canoldymor, dangosol |

| Fe ddywedom y byddem yn | Rydym wedi |
| --- | --- |
| • Datblygu cynllun gweithredu rhanbarthol | • Sefydlu trefn lywodraethu ranbarthol i oruchwylio datblygu a chyflawni'r cynllun<br>• Cychwyn peilot yng Ngheredigion i dreialu defnydd ar y cyd o'r System gan iechyd a llywodraeth leol<br>• Cynnal dadansoddiad bylchau manwl yn cymharu swyddogaeth y System gyda swyddogaeth systemau presennol i feintioli risgiau a buddion ac adnabod meysydd i'w datblygu ymhellach |

## Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

| Fe ddywedom y byddem yn | Rydym wedi |
| --- | --- |
| • Cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus ar y model a argymhellir ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl | • Cyd-ddylunio model ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn y dyfodol, a fydd wedi'i hysbysu gan wersi a ddysgwyd o ymgysylltu'n helaeth, tystiolaeth ryngwladol ac ymgynghori cyhoeddus<br>• Adnabod cyfleoedd i alinio gyda'r gwasanaethau ehangach drwy'r rhaglen 'Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol'<br>• Derbyn cymeradwyaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i'r model ac wedi sefydlu Grŵp Gweithredol Iechyd Meddwl rhanbarthol i oruchwylio'r cyflawniadau |
| • Ymgynghori â rhanddeiliaid ar weledigaeth ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu, yn cynnwys gweithdy i randdeiliaid yng Ngwanwyn 2017 | • Cynnal gweithdy rhanddeiliaid rhanbarthol, yn cynnwys comisiynwyr, rheolwyr, darparwyr a chynrychiolwyr defnyddwyr, sydd wedi helpu wrth ddatblygu ffrydiau gwaith i fwrw ymlaen â thrawsffurfio ac integreiddio yn y rhanbarth |

Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi adnabod ystod o gamau gweithredu i fwrw ymlaen â nhw yng nghyswllt ei flaenoriaethau ychwanegol, gan adeiladu ar weithgareddau presennol ledled y rhanbarth. Rhoddir manylion isod.

## Gofalwyr

| Rydym wedi | Byddwn yn |
|---|---|
| • Sefydlu Grŵp Cyflawni Gofalwyr rhanbarthol wedi'i ail-ffurfio, gyda chynrychiolaeth o'r pedwar asiantaeth partner statudol, sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd | • Hwyluso deialog barhaus rhwng y Bwrdd a'r Grŵp Cyflawni Gofalwyr i sicrhau bod y gefnogaeth i ofalwyr yn gadarn ac yn effeithiol<br>• Cymryd adroddiadau rheolaidd gan y Grŵp Cyflawni Gofalwyr i'r Bwrdd |
| • Datblygu Cynllun Cyflawni Gofalwyr ar gyfer 2018-19, sy'n adlewyrchu canfyddiadau'r Asesiad Poblogaeth ac yn cynnwys ystod o weithgareddau yn cynnwys datblygu a chadarnhau cynlluniau presennol i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr a mynd i'r afael â'u hanghenion penodol | • Gweithredu camau o fewn y Cynllun Cyflawni Gofalwyr<br>• Sicrhau y rhoddir sylw priodol i faterion gofalwyr mewn rhaglenni ehangach sy'n cael eu symud ymlaen gan y Bwrdd |

## Y Gweithlu

| Rydym wedi | Byddwn yn |
|---|---|
| • Sefydlu Grŵp Strategaeth Gweithlu rhanbarthol a gadeirir gan Noddwr y Bwrdd ac sy'n cynnwys y gweithlu, a rheolwyr hyfforddiant a gwasanaethau | • Adolygu aelodaeth o'r Grŵp Strategaeth Gweithlu ac yn defnyddio'r Fforwm Arloesedd rhanbarthol newydd i ymgysylltu â'r sector ar faterion gweithlu |
| • Cyflwyno trefniadau rhanbarthol i reoli cyflawni Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n cefnogi ystod o weithgareddau sydd wedi'u hanelu at wella llwybrau gyrfa ar gyfer staff gofal a chefnogol a rhoi mwy o sgiliau iddynt i'w helpu nhw i gyflawni ffyrdd newydd ac integredig o weithio | • Cryfhau trefniadau rhanbarthol a diogelu cyfran o'r arian ar gyfer datblygu'r gweithlu i gefnogi blaenoriaethau strategol y Bwrdd |
| • Ymgymryd ag ymarferiad sgopio cychwynnol ar gyfer strategaeth gweithlu ranbarthol | • Defnyddio deilliannau'r ymarferiad sgopio i helpu i ddatblygu strategaeth gweithlu rhanbarthol gwbl integredig ar gyfer gofal a chymorth |

## Y Gymraeg

| Rydym wedi | Byddwn yn |
|---|---|
| • Mae fforymau'r Gymraeg yn eu lle ledled y rhanbarth sy'n cefnogi gweithredu safonau lleol a | • Sefydlu Fforwm Iaith Gymraeg rhanbarthol i rannu profiad, gwersi i'w dysgu a rhoi tystiolaeth o |

| Rydym wedi | Byddwn yn |
|---|---|
| gwreiddio'r 'cynnig gweithredol' i bobl sydd am dderbyn gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg | ymarfer effeithiol, gan hynny wella profiadau'r bobl sydd am dderbyn gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg |

# 5. Cronfa Gofal Canolraddol (ICF)

Mae ICF Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu modelau integredig o ofal a chymorth ar draws gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Canolbwynt yr ICF, a gyflwynwyd yn 2014-15, yw galluogi i bobl hŷn gynnal eu hannibyniaeth a chefnogi gwell deilliannau i bobl sydd ag anableddau dysgu, pobl sydd ag awtistiaeth, gofalwyr a phlant ag anghenion dwys.

Yn 2017-18, darparodd yr ICF £6.5 miliwn mewn arian refeniw a £1.3 miliwn mewn arian cyfalaf i ranbarth Gorllewin Cymru. O'r cyfanswm hwn:

- Roedd £318K ar gael i gefnogi sefydlu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, yn seiliedig ar fodel gwasanaeth y cytunwyd arno'n genedlaethol sydd â'r nod o wella diagnosis a rhoi cefnogaeth gydgysylltiedig i blant ac oedolion ag awtistiaeth a'u gofalwyr. Diogelwyd £185K pellach i gefnogi gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ledled y rhanbarth
- Rhoddwyd cyfraniad rhanbarthol o £579K, gan roi capasiti i gydlynu a monitro'r rhaglen, arian ar gyfer nifer o fentrau traws-ranbarthol yn cynnwys (1) sefydlu Gwasanaeth Ymyrraeth Ymddygiad yn darparu cefnogaeth ehangach i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu sy'n arddangos ymddygiad heriol hefyd, a'u teuluoedd, eu gofalwyr a'u hathrawon, a (2) chapasiti o fewn yr Uned Cydweithredu Rhanbarthol i gefnogi cyflawni blaenoriaethau strategol y Bwrdd
- Dosbarthwyd yr adnoddau oedd yn weddill ar sail gymesur ar draws y tair ardal awdurdod lleol ar sail poblogaeth

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r ICF wedi galluogi i bartneriaid ddatblygu a gweithredu ystod o fodelau gwasanaeth arloesol ac integredig, gan wella deilliannau i bobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr a lleihau pwysau ar y system iechyd a gofal yn y Rhanbarth. Mae'r rhaglenni sydd wedi'u hariannu wedi dwyn ynghyd ystod o bartneriaid, gyda'r trydydd sector yn chwarae rôl flaenllaw wrth ddatblygu a chyflawni dulliau newydd. Ynghyd â chyflawni yn erbyn y blaenoriaethau strategol sydd wedi'u hamlinellu yn Adran 4, mae'r rhaglen ICF yn helpu i sicrhau bod y Bwrdd yn bodloni ei ddyletswyddau statudol yng nghyswllt integreiddio gofal a chymorth i ystod o grwpiau poblogaeth.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ein rhaglen ICF yn flynyddol ac yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd. Mae Cytundeb Partneriaid, a lofnodir gan bob un o'r asiantaethau partner statudol, yn nodi ein trefniadau llywodraethu ar gyfer y Gronfa.

Mae ein Fforwm ICF rhanbarthol, a sefydlwyd eleni, yn cyfarfod yn fisol ac yn gerbyd i rannu profiadau a deilliannau gan wahanol fodelau a ariennir drwy ICF ledled y rhanbarth ac adnabod cyfleoedd i ehangu rhaglenni llwyddiannus.

Her allweddol i bartneriaid yw sut rydym yn trosglwyddo rhaglenni llwyddiannus a ariennir drwy'r ICF i gael eu cyflwyno fel rhai craidd, ac addasu cyllidebau i gefnogi

ffyrdd newydd o weithio. Bydd mentrau megis rhaglen 'Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol' Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, adolygiad sylfaenol, wedi'i arwain yn glinigol, o ofal iechyd yng Ngorllewin Cymru, yn rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i hyn ddigwydd dros y cyfnod nesaf.

Hefyd, rydym yn cydnabod yr angen i wella trefniadau i fesur effaith y rhaglen ICF mewn meysydd allweddol megis cadw pobl adref am yn hirach, sicrhau bod pobl yn cael eu gadael adref o'r ysbyty yn amserol ac yn ddiogel ac osgoi'r angen i bobl orfod mynd yn ôl i'r ysbyty yn y dyfodol. Mae gwaith wedi dechrau dan nawdd y Fforwm ICF i ddatblygu fframwaith deilliannau rhanbarthol a fydd yn ein helpu i gyflawni hyn, a gobeithiwn lansio'r fframwaith yn ffurfiol yn 2018-19.

### Astudiaeth Achos: Prosiect CUSP, Sir Gaerfyrddin

Nod prosiect CUSP yw darparu cymorth wedi'i chydlynu gan y trydydd sector i gefnogi pobl 18 oed a hŷn i fyw'n dda ac yn annibynnol. Caiff ei arwain gan y Groes Goch ac mae wedi'i anelu at bobl sydd ar fin bod angen gofal a chymorth gan wasanaethau statudol, ac yn aml, lle byddai anffawd fechan yn golygu bod rhywun yn mynd 'dros y dibyn'. Mae'r bobl y mae CUSP yn eu cefnogi yn derbyn asesiad gan y Groes Goch, a fydd wedyn yn adnabod adnoddau, darpariaethau ac asedau cymunedol sydd ar gael o fewn eu cymuned i'w helpu nhw i fod yn fwy gwydn.

Cyfeiriwyd menyw 78 oed oedd yn byw ar ei phen ei hun mewn ardal wledig o Sir Gaerfyrddin i CUSP ar ôl i'w pherthynas gyda'i mab dorri i lawr, a oedd yn golygu nad oedd neb yn medru mynd i siopa iddi, yn cynnwys bwyd a hanfodion eraill. Fe wnaeth y Groes Goch siopa brys iddi ac yna fe wnaethant ofyn i asiantaeth gofal cartref leol i fynd i siopa iddi bob wythnos am ffi fechan. Mae'r buddion i'r fenyw yn cynnwys cynnal ei hannibyniaeth, lleihau risg o ddiffyg maeth a lleihau unigedd yn sgil y gefnogaeth cyfeillio a gynigir gan weithwyr yr asiantaeth sy'n dod â'i siopa iddi bob wythnos.

### Astudiaeth Achos: Cymunedau Gweithredol a Chysylltiedig, Sir Benfro

Nod y prosiect Cymunedau Gweithredol a Chysylltiedig yn Sir Benfro yw recriwtio gwirfoddolwyr i ddatblygu gweithgareddau a grwpiau cymdeithasol cymunedol i leihau arwahanrwydd i unigolion yn y Sir. Mae'n gweithio'n agos gyda chysylltwyr cymunedol y Cyngor Sir i nodi bylchau a datblygu gweithgarwch newydd.

Mae S yn ŵr 33 oed sydd ag anableddau dysgu ac sy'n byw ar ei ben ei hun yn y Sir. Er ei fod yn medru parhau'n annibynnol gyda chefnogaeth gweithiwr cymdeithasol, roedd S yn teimlo'n gynyddol unig, ac yn gyndyn o fynd allan ar ei ben ei hun a heb unrhyw ffrindiau na theulu yn byw'n agos. Cafodd ei gyfeirio at y prosiect a chyfarfu gweithiwr ag ef a'i weithiwr cymdeithasol i drafod ei ddiddordebau a'i hobïau ac unrhyw brofiadau blaenorol y gallent eu defnyddio i'w helpu i deimlo'n fwy o ran o'i gymuned. Canfuwyd bod gan S ddiddordeb mawr yn yr awyr gored a'i fod wedi gwirfoddoli i elusen gadwraeth yn y gorffennol.

O ganlyniad i'r sgwrs, cysylltwyd S â Tir Coed, elusen a menter gymdeithasol leol sy'n cysylltu pobl â choetiroedd, gan gefnogi datblygu sgiliau i'w galluogi nhw i wella coetiroedd i bawb. Bellach, mae S yn gwirfoddoli gyda'r prosiect Tir Coed ddwywaith yr wythnos. Pan ofynnwyd iddo sut yr oedd wedi elwa o hyn, dywedodd S, 'Roedd cael gwybod am Tir Coed a'r grŵp arall yn dda iawn. Fe wnaeth i mi deimlo bod rhywun yn gwrando arna i ac yn obeithiol bod rhywbeth y gallwn i ei wneud i fynd allan. Rydw i'n hoffi mynd i Tir Coed ac mae'n rhoi rhywbeth i mi edrych ymlaen ato.'

## Astudiaeth Achos: Cynnal annibyniaeth drwy ddarparu atebion ar sail llety, Ceredigion

Ariannir y prosiect hwn drwy'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) ac fe'i datblygwyd yn benodol i ddarparu atebion ar sail llety mewn cymunedau gwledig ac ychwanegu gwerth i wasanaethau Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru ar gyfer cleientiaid bregus, yn cynnwys pobl hŷn ag anghenion dwys a chyflyrau hirdymor megis dementia; pobl ag anableddau dysgu; plant ag anghenion dwys yn sgil anableddau neu salwch a gofalwyr. Mae'n cysylltu ag ystod o raglenni a ariennir drwy'r ICF hefyd, megis *Accessing Alternatives to Admission*, Clinig Codymau Cymunedol a Thîm Adnoddau Cymunedol y trydydd sector.

Mae dau linyn i'r prosiect:

- Gwasanaeth ymweld yn seiliedig yn y cartref i asesu a chynghori ar faterion diogelwch ac opsiynau cynhesrwydd fforddiadwy o fewn y cartref, wedi'i ddilyn gan lythyr yn cynghori ac atgyweiriadau drwy grantiau y cytunir arnynt a gwasanaethau ychwanegol y cytunir arnynt.

- Asesiad a chyfeiriadau am Grant Cymorth Trwsio Brys sy'n galluogi i bobl hŷn a bregus aros yn eu cartrefi drwy ddarparu gwasanaethau trwsio hanfodol a chyflwyno pecynnau gofal a wneir i wella safonau tai a ffyrdd mynediad a fydd yn diogelu eu hiechyd a'u diogelwch a chynnal eu hannibyniaeth.

Ynghyd ag adnabod peryglon yn y cartref, mae cyfle i gynnal sgwrs 'beth sy'n bwysig' gyda'r dinesydd, a fydd yn adnabod cyfleoedd pellach i gyfeirio at wasanaethau trydydd sector ac eraill, fel sy'n briodol.

Defnyddir y Cyfrifiannell Cost Iechyd Tai (HHCC) i gyfrifo costau iechyd peryglon mewn cartrefi a'r arbedion cysylltiedig i'r GIG a'r gymdeithas yn ehangach a geir yn sgil gwneud gwelliannau. O'r Cymorth Trwsio Brys blaenorol a ddarparwyd, mae'n wybyddus bod y galw sydd wedi'i arwain gan anghenion sylfaenol am gymorth yn cynnwys gwaith trydanol, systemau gwresogi, toeau sy'n gollwng, ffenestri a drysau newydd. Pan fewnbynnir y gwaith hwn i gronfa ddata HHCC, darperir cyfrifiad o'r arbedion i'r GIG yn sgil ymgymryd â'r gwaith hwn wrth atal pobl rhag mynd i'r ysbyty.

Mae'r enghreifftiau a restrir isod yn dangos anghenion penodol cleientiaid mewn cymunedau mwy gwledig a gwasgar sydd wedi'u cefnogi gan y prosiect a'r gwerth a ychwanegir i'r gwasanaethau a ddarperir gan Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru:

**Enghraifft 1:** Roedd menyw hŷn wedi cymryd lletywr i mewn oedd â phroblemau iechyd meddwl a gofalwr. Fodd bynnag, stopiodd y gofalwr alw oherwydd cyflwr yr eiddo, roedd llawr y gegin wedi pydru ac mewn cyflwr peryglus. Fe wnaeth yr ERA dalu am gost y llawr newydd a'r gorchudd, ffenestr newydd yn y gegin a dau wresogydd stôr newydd yn yr ystafell fyw. Cost y gwaith oedd £3,000, gan arwain at arbediad o £344 gyda chyfnod talu'n ôl o 8 mis.

**Enghraifft 2:** Gŵr hŷn yn byw ar ei ben ei hun. Cysylltwyd â'r Uned Grantiau gan fod ei do yn gollwng. Wedi ymweliad y Swyddog Technegol, sefydlwyd bod y dŵr yn dod o beipen rydd yn yr atig, a gwnaeth y Swyddog ei dynhau. Roedd y dŵr wedi achosi nam trydanol a gadawyd hanner y tŷ mewn tywyllwch heb drydan. Cymeradwywyd yr ERA i ymgymryd â'r gwaith trydanol yn yr eiddo. Cost y gwaith oedd £3,000, a'r arbediad cost i'r GIG oedd £311 a arweiniodd at gyfnod talu'n ôl o 9 mis.

**Enghraifft 3:** Menyw hŷn oedd wedi gorfod mynd i mewn i ofal, oherwydd bod ei chartref yn frwnt ac roedd pla yno. Fe wnaeth yr Adran Llesiant Cymunedol lanhau'r eiddo tra'i fod yn wag. Roedd yr olew wedi'i ddwyn, felly roedd y tanc olew a'r boiler wedi'u difrodi. Fe wnaeth yr ERA dalu am gost lein olew newydd ac ailgomisiynu'r boiler. Golygodd hyn fod y fenyw wedi gallu mynd adref o'r ysbyty. Roedd cost y gwaith yn £3,000, gydag arbediad cost o £585 i'r GIG, gan arwain at gyfnod talu'n ôl o 5 mis.

**Enghraifft 4:** Gŵr hŷn a oedd yn yr ysbyty ac yn barod i gael ei anfon adref. Wedi mynd adref, byddai angen gofal lliniarol a sefydlu pecyn gofal. Roedd y trac i'w eiddo mewn cyflwr gwael, ac nid oedd posib gyrru cerbyd y gofalwr i lawr y trac er mwyn darparu'r gofal yr oedd ei angen iddo. Y gwaith a wnaed dan yr ERA oedd gwella cyflwr y trac.

**Enghraifft 5:** Roedd gŵr hŷn yn yr ysbyty yn barod i gael ei anfon adref, ac roedd pecyn gofal yn cael ei lunio; fodd bynnag, penderfynwyd bod y mynediad i'w eiddo yn anniogel. Roedd y gwaith a wnaed yn cynnwys paratoi'r dreif ac ail-wynebu a darparu rheiliau pren bob ochr i'r bont. Heb yr ymyrraeth hon, ni fyddai'r gŵr wedi gallu dychwelyd adref.

Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn gweithredu ffi weinyddol i'r cleient o £45/£50 ar y cynllun *Handyperson*, sy'n cynhyrchu incwm ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth. Yn ogystal, cynigir Gwasanaeth Talu'n Breifat i gleientiaid am waith sydd y tu hwnt i'r trothwy o £300 os nad ydynt yn gymwys i gael eu cyfeirio at wasanaeth tai'r awdurdod lleol. Mae'r grantiau a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn cael eu rhoi gyda gwystl am oes h.y. wrth werthu neu drosglwyddo'r eiddo, mae angen ad-dalu gwerth y gwaith grant.

# 6. Cynllun Ardal Gorllewin Cymru

Mae Adran 14A y Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol gynhyrchu Cynlluniau Ardal ar y cyd bob pum mlynedd, sy'n nodi sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â darganfyddiadau ac argymhellion Asesiadau Poblogaeth rhanbarthol. Mae angen i'r Cynlluniau hyn nodi ymagwedd a rennir at atal, Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, datblygu modelau cyflawni amgen a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyhoeddwyd Cynllun Ardal cyntaf Gorllewin Cymru ym mis Mawrth 2018 ac mae'n berthnasol i'r cyfnod 2018-2023. Cynhyrchwyd y Cynllun ar y cyd gan y tri awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a phartneriaid eraill yn y rhanbarth. Bu'r Uned Cydweithredu Rhanbarthol yn arwain ar ddatblygu'r Cynllun, dan gyfarwyddyd y Bwrdd. Defnyddiwyd grŵp ymgynghorol traws-asiantaethol drwy gydol y broses a chymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun ym mis Chwefror 2018, cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y 4 partner statudol.

Mae'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r bylchau a'r meysydd i'w gwella ar draws gwasanaethau a adnabuwyd yn ein Hasesiad Poblogaeth y gwnaethom ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2017. Law yn llaw â data poblogaeth a gwasanaeth, mewnbynnwyd y barnau a fynegwyd gan ddinasyddion drwy'r ymarferiad ymgynghori a gynhaliwyd ar gyfer yr Asesiad Poblogaeth i'r broses o ddatblygu'r Cynllun. Mae'n ddogfen bwysig sy'n darparu fframwaith clir i bartneriaid ar gyfer integreiddio a thrawsffurfio gofal a chymorth ac mae'n ddatganiad cyhoeddus o'n bwriadau, y gwahoddir defnyddwyr, gofalwyr a chymunedau'n ehangach iddynt i'n dal ni i gyfrif. Gwnaethpwyd y Cynllun yn gryno ar bwrpas, fel y byddai'n hygyrch i'r ystod o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb mewn sut y darperir gofal a chymorth yn awr a sut rydym am ei newid yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o amcanion lefel uchel, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau strategol y Bwrdd, y mae manylion amdanynt yn Adran 4 uchod ac y maent wedi'u gosod ar hyd llwybr gofal a chymorth ataliol tri cham sy'n cynnwys y cydrannau a ganlyn:

1. **Atal Cam 1: Helpu pobl i barhau'n iach ac yn annibynnol o fewn y gymuned** er enghraifft, drwy (1) sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn dulliau hygyrch sy'n galluogi pobl i wneud dewisiadau priodol a chynnal iechyd a llesiant personol, (2) deall gwerth ymarfer corff yn rheolaidd, (3) bwyta'n iach a'r angen i gymdeithasu'n rheolaidd o oedran ifanc, (4) cysylltu pobl â chanolfannau llesiant a (5) chefnogaeth anffurfiol o fewn eu cymunedau a datblygu gwasanaethau byw â chefnogaeth ymhellach

2. **Atal Cam 2: Helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth drwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu sy'n osgoi'r angen i bobl orfod mynd i'r ysbyty neu ofal preswyl hirdymor, neu gefnogi cael eu hanfon adref yn amserol** megis (1) gofal cartref, (2) addasiadau tai, (3) gwasanaethau 'troi rownd' yn nrws ffrynt ysbytai, (4) gwasanaethau ymateb cyflym, (5) gwasanaethau 'cam i fyny', 'cam i lawr' ac ail-alluogi, (6) gofal ychwanegol, (7) cefnogi teuluoedd a rhieni i leihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) a all gael effeithiau hirdymor ac (8) adeiladu

ar waith y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd i weithio gyda'r plant a'r teuluoedd mwyaf bregus yng Nghymru, a'u cefnogi

3. **Atal Cam 3: Sicrhau bod pobl yn derbyn, lle bo hynny'n briodol, gofal a chymorth hirdymor sy'n seiliedig ar ddeilliannau** er enghraifft, drwy iechyd a/neu ofal cymdeithasol parhaus mewn lleoliadau preswyl, gyda ffocws ar gefnogi annibyniaeth, adeiladu ar gryfderau a gwella deilliannau i unigolion dros amser, gan weithio i leihau lefelau diangen o ofal

Wrth i'r Cynllun gael ei ddatblygu, fe wnaethom weithio gyda'r tri Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn y rhanbarth i adnabod cysylltiadau rhwng ein hamcanion a'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn eu Cynlluniau Llesiant. Byddwn yn parhau i weithio yn y ffordd hon wrth i'r cynlluniau gael eu gweithredu, i sicrhau synergedd ac osgoi dyblygu. Yn yr un modd, rydym wedi dechrau sefydlu cysylltiadau gyda fforymau megis y Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau a Chyd-bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (sy'n goruchwylio ailfodelu gwasanaethau iechyd yn ardal y Canolbarth). Yn olaf, byddwn yn sicrhau bod gweithredu mentrau megis y rhaglen 'Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol' a'r Strategaeth Rhanbarthol Trais Yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig A Thrais Rhywiol yn adlewyrchu ymrwymiadau strategol o fewn y Cynllun Ardal.

Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gyflawni yn erbyn y Cynllun Ardal. Byddwn yn ehangu'r fframwaith deilliannau rhanbarthol sy'n cael ei ddatblygu i gefnogi'r rhaglen ICF i'n helpu ni i fonitro ei effaith gyffredinol.

Mae'r tirlun y mae gofal a chymorth yn gweithredu o'i fewn yn newid yn barhaus. Felly, rydym yn cydnabod bod rhaid i'r Cynllun Ardal fod yn ddogfen 'fyw', y gellir ei hadolygu a'i diwygio wrth i amgylchiadau newid dros y pum mlynedd nesaf. Er mwyn helpu gyda hyn, fe wnaethom weithio gydag Uned Ddata Llywodraeth Leol i ddatblygu Llwyfan Data rhanbarthol a aeth yn fyw ym mis Mawrth. Mae hwn yn cynnwys fersiwn rhyngweithiol o'r Cynllun law yn llaw ag ystod eang o ddata poblogaeth a gwasanaeth, a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd ac sydd ar gael i'w ddefnyddio gan bartneriaid i helpu gyda datblygu comisiynu a gwasanaethau. Cewch fynediad i'r Porth Data a'r Cynllun Ardal drwy'r ddolen isod <http://www.wwcp-data.org.uk>.

# 7. Datblygu ymagwedd gyd-gynhyrchiol

Mae ein Cynllun Ardal yn cynnwys ymrwymiad i weithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol, yn cynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a darparwyr gofal a chymorth, wrth weithredu ein hamcanion strategol. Mae hyn yn cynnwys mwy nag ymgynghori â phobl ynghylch materion penodol neu newidiadau sydd wedi'u cynllunio; yn hytrach, mae'n golygu eu cynnwys mewn modd ystyrlon ym mhob cam ac ym mhob agwedd o ddatblygu a chyflawni gwasanaethau. Mae hon yn egwyddor allweddol o fewn y Ddeddf ac mae'n cynrychioli newid sylfaenol o ymagweddau traddodiadol. Bydd yn cymryd amser i'w wneud yn iawn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn gosod sylfeini i gefnogi ymagwedd gyd-gynhyrchiol yng Ngorllewin Cymru. Mae cynigion wedi'u datblygu i sefydlu Fforwm Arloesedd rhanbarthol a fydd yn dwyn ynghyd ddarparwyr ar draws y

sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol yn rheolaidd, i ystyried materion generig megis sut allwn ni gefnogi datblygu mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd a gwasanaethau a arweinir gan y defnyddwyr orau, a chyfleoedd i ddatblygu a gwella gofal a chymorth i grwpiau penodol o fewn y boblogaeth. Yn unol â gofynion dan Ran 2 y Ddeddf, bydd y Fforwm Arloesedd yn rhoi pwyslais cryf ar werth cymdeithasol (yn elfennol, gwneud y gorau o fuddion i lesiant unigol a chymunedol a'r amgylchedd), wrth i ni ddatblygu a chyflawni modelau newydd o ofal a chymorth.

Mae cynigion ychwanegol wedi'u datblygu i greu mecanweithiau rhanbarthol i ymgysylltu â dinasyddion – nid y rheini sy'n derbyn gofal a chymorth a gofalwyr yn unig, oherwydd mae gan bawb ran i'w chwarae mewn cymunedau gofalgar. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu panel sefydlog y caiff unigolion eu gwahodd ohonynt i gymryd rhan mewn ffurfio gwasanaethau penodol, a pheilota systemau seiliedig ar y we i ymgysylltu'n fwy cyffredinol gyda'r gymuned ehangach drwy 'sgyrsiau digidol' parhaus.

Caiff y ddau gynnig eu hystyried gan y Bwrdd yn gynnar yn 2018-19, gyda'r bwriad o sefydlu'r trefniadau cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib. Byddwn yn adrodd ar gynnydd a deilliannau yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf.

# 8. Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)

Sefydlwyd Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) ledled Cymru dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Maent yn darparu cymorth holistaidd i deuluoedd sydd ag anghenion dwys sy'n codi o faterion yn ymwneud â'r rhieni'n camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl neu salwch meddwl, anableddau dysgu neu drais domestig, gan eu cynorthwyo nhw i aros gyda'i gilydd drwy eu hannog i wneud camau cadarnhaol i wella eu bywydau. Gwneir hyn drwy ddulliau llyfn ar draws gwasanaethau plant ac oedolion a chyda Byrddau Iechyd Lleol, gan sicrhau y rhennir cyfrifoldebau a bod mwy o atebolrwydd wrth ddarparu cymorth i deuluoedd. Mae gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddyletswydd i hyrwyddo integreiddio cymorth i deuluoedd gan ddefnyddio'r model IFSS ac am sicrhau bod gofynion statudol yn ymwneud ag IFSS yn cael eu bodloni ledled eu hardal.

Mae Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSTs), sy'n dwyn ynghyd weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, wedi bod yn eu lle ym mhob un o'r tair ardal awdurdod lleol yng Ngorllewin Cymru ers 2012. Caiff timau lleol eu hadeiladu o amgylch strwythur a rennir sy'n adlewyrchu'r gofynion sydd wedi'u nodi dan y Mesur, gyda rhai amrywiadau lleol sy'n adlewyrchu'r boblogaeth leol, lefelau o angen a threfniadau gwasanaeth ehangach.

Mae partneriaeth IFSS ranbarthol yn ei lle, sy'n cynnwys ardal Powys, a chyda Chyngor Sir Ceredigion yn bartner arweiniol. Yn y rôl hon, mae'r Cyngor yn hwyluso grŵp rheolwyr IFSS rhanbarthol sy'n darparu amgylchedd dysgu gweithredol i'r rheini sydd ynghlwm â chyflawni IFSS ac yn cydlynu adrodd yn chwarterol ar gynnydd i'r bartneriaeth ranbarthol a Llywodraeth Cymru.



Ym mis Mawrth 2018, roedd gan IFSS Sir Gaerfyrddin 3 aelod o staff, roedd gan IFSS Ceredigion 2 aelod o staff ac roedd gan IFSS Sir Benfro 3 aelod o staff. Roedd gan wasanaeth Powys 4 aelod o staff.

Mae 5 deilliant craidd wedi'u hadnabod ar gyfer y gwasanaeth, fel a ganlyn:



- **Deilliant 1** – Darparu cyngor ac ymgynghoriaeth i weithwyr cymdeithasol sy'n cyfeirio ac sy'n cynrychioli teuluoedd bregus
- **Deilliant 2** – Darparu asesiad, cymorth ac ymyrraeth briodol i deuluoedd
- **Deilliant 3** – Cyfrannu at deuluoedd yn gallu aros gyda'i gilydd
- **Deilliant 4** – Datblygu sgiliau a gwybodaeth y gweithlu
- **Deilliant 5** – Arddangos newid cynaliadwy o fewn teuluoedd

Caiff cynnydd yn erbyn y deilliannau hyn ei fonitro gan ddefnyddio ystod o ddangosyddion perfformiad. Dangosir y perfformiad am y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 yn Ffigurau 4-8 isod:

### Ffigur 4

<table>
<tr>
<td>Cyfansymiau DEILLIANT 1<br><br>Bydd yr IFSS yn darparu cyngor ac ymgynghoriaeth i weithwyr cymdeithasol sy'n cyfeirio ac sy'n cynrychioli teuluoedd bregus<br><br>Nifer y teuluoedd newydd a gyfeiriwyd: 161<br><br>Nifer y plant mewn teuluoedd a gyfeiriwyd: 286<br><br>Nifer y plant heb eu geni mewn teuluoedd a gyfeiriwyd: 26</td>
<td>Teuluoedd newydd a gyfeiriwyd<br><br><br>Nifer y plant a phlant heb eu geni mewn teuluoedd newydd a gyfeiriwyd<br><br></td>
</tr>
</table>

## Ffigur 4 parhad

| | |
|---|---|
| Mae'r graffiau hyn yn rhoi cyfraddau cyfeirio cymharol yn y rhanbarth ar sail flynyddol a pharhaus |     |

## Ffigur 5

**Cyfansymiau DEILLIANT 2**

Bydd yr IFSS yn darparu asesiad, cymorth ac ymyrraeth briodol i deuluoedd


Nifer y teuluoedd sy'n dechrau'r cam 72 awr yw 76

Statws y 113 o blant wrth ddechrau'r cam 72 awr


(Mae'n bosib bod gan blant fwy nag un statws**)**


- Plant mewn Angen gofal a chymorth: 33
- Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant: 87
- Plant sy'n derbyn Gofal: 11
- Plant yn y broses PLO: 25

Statws plant: cam 72 awr





## Ffigur 6

<table>
<tr>
<th>Cyfansymiau DEILLIANT 3</th>
<th>Teuluoedd sy'n dechrau Cam 2</th>
<th>Statws y Plant: Cam 2</th>
</tr>
<tr>
<td>
Bydd yr IFSS yn cyfrannu at deuluoedd yn gallu aros gyda'i gilydd<br><br>
Nifer y teuluoedd sy'n dechrau Cam 2: 46<br><br>
Statws y 52 o blant wrth ddechrau cam 2<br><br>
(Mae'n bosib bod gan blant fwy nag un statws)<br><br>
• Plant mewn Angen gofal a chymorth: 28<br>
• Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant: 38<br>
• Plant sy'n derbyn Gofal: 6<br>
• Plant yn y broses PLO: 20
</td>
<td>


</td>
<td>


</td>
</tr>
</table>

## Ffigur 7

| | |
|---|---|
| **Cyfansymiau DEILLIANT 4**<br><br>**Bydd yr IFSS yn datblygu sgiliau a gwybodaeth y gweithlu**<br><br>Nifer y rhaglenni undydd a hwyluswyd: 12<br><br>Nifer y rhaglenni 4 diwrnod a hwyluswyd: 4<br><br>Nifer y staff sy'n mynychu hyfforddiant Gweithlu Ehangach: 161 | Cefndiroedd Proffesiynol y Staff sy'n Mynychu Hyfforddiant Gweithlu Ehangach yr IFSS<br><br><br>Sefydliadau'r Staff sy'n Mynychu Hyfforddiant Gweithlu Ehangach yr IFSS<br> |

## Ffigur 8

<table>
<tr>
<td>

**Cyfansymiau DEILLIANT 5**

**Bydd yr IFSS yn arddangos newid cynaliadwy o fewn teuluoedd**

Cyfanswm nifer yr Achosion a Gaewyd: 64

Nifer y teuluoedd sy'n cynnal newid mewn achosion a gaewyd cyn pen 12 mis: 15

Nifer y teuluoedd sy'n cynnal newid mewn achosion a gaeir wedi 12 mis: 21

Nifer y teuluoedd lle nad yw'r prif fater cyfeirio yn bryder amddiffyn plant wrth gau'r achos: 28

Nifer y plant mewn teuluoedd sy'n cau Cam 2 sydd:

(Mae'n bosib bod gan blant fwy nag un statws)


Wedi aros yng nghartref y teulu: 57

Wedi'u symud o gartref y teulu: 9

Wedi dychwelyd i gartref y teulu: 2


</td>
<td>

Deilliannau wrth gau'r achos (diwedd Cam 2)




</td>
<td>

Statws y plant wrth gau'r achos (diwedd Cam 2)




</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| Wedi aros yn y broses<br>PLO: 2 | | |

Yn ystod 2017-18 mae IFSS wedi'i wreiddio ymhellach ledled y rhanbarth. Ymhlith y cyflawniadau penodol y mae:

- Cadw'r rhan helaethaf o blant o fewn cartref y teulu ar ddiwedd yr ymyrraeth IFSS
- Adborth cadarnhaol gan deuluoedd a gefnogir a gweithwyr cymdeithasol ynghylch ymyrraeth yr IFST (Ceredigion)
- Cynnal lefel gyson o gyfeiriadau gyda llai o staff (Sir Gaerfyrddin)
- Cefnogaeth ddwys gan IFST yn atal plant rhag dod yn rhai sy'n 'derbyn gofal' a dychwelyd plant 'sy'n derbyn gofal' adref (Sir Benfro)

Mae teithiau teuluoedd y mae eu hymyrraeth IFSS wedi dod i ben yn cael eu cofnodi'n rheolaidd fel y gellir gwerthuso effaith y gwasanaeth a rhannu ymarfer llwyddiannus ledled y rhanbarth a'r tu hwnt. Darperir astudiaethau achos enghreifftiol isod.

Derbyniodd **IFSS Sir Gaerfyrddin** gyfeiriad am fam 20 oed a dau o blant ifanc. Roedd gan y fam hanes o gamddefnyddio sylweddau ac roedd rhan fwyaf ei chylch ffrindiau yn camddefnyddio cyffuriau. Pan roedd hi'n 19 oed, cafodd driniaeth cynnal bywyd yn dilyn camddefnyddio cyffuriau. Cafodd ei phartner ei adalw i'r carchar. Wedi rhoi genedigaeth i'w baban ieuengaf, fe'i lleolwyd hi a'i phlentyn mewn lleoliad maeth rhiant/babi am wyth wythnos, gyda chymorth yr IFST. Gwnaed gwaith dwys yn ystod y lleoliad a pharhaodd hyn gartref hefyd. Caewyd yr achos ac ers hynny, mae hi wedi cwrdd â staff Llywodraeth Cymru i siarad am ei phrofiadau ac effaith fuddiol ymglymiad IFST. Mae'r teulu wedi cytuno i gymryd rhan mewn prosiect i ddatblygu ffilm sy'n disgrifio eu profiadau ar gyfer Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Fe wnaeth **IFSS Ceredigion** ymdrin ag achos lle cymerodd yr heddlu fachgen ifanc, 7 oed, oddi ar ei fam . Yn wreiddiol, lleolwyd y bachgen gyda'i fam-gu a'i dad-cu, gyda chefnogaeth IFSS ac yna aeth yn ôl at ei fam ac mae wedi parhau yn ei gofal hi. Rhoddodd ymyrraeth yr IFST gefnogaeth ymarferol ddwys, gan ganiatáu'r cyfle i fynd i'r afael â'r rhesymau hirdymor ynghylch pam dorrodd y berthynas i lawr. Er bod ymddygiad y bachgen yn parhau'n heriol, gall y fam weld perthynas fel mam gyda'i mab yn y dyfodol. Mae'r bachgen yn ymateb i ffiniau cyson ac mae'r angen am leoliad arbenigol wedi'i osgoi.

Derbyniodd **IFSS Sir Benfro** gyfeiriad am fam a oedd wedi cael ei harestio am esgeuluso, ar ôl iddi gael ei darganfod yn anymwybodol o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau. Rhoddwyd enwau'r ddau o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Roedd y fam wedi bod mewn perthynas dreisgar a chymerodd yr ymarferydd IFSS amser i helpu'r fam i ddeall y sefyllfa, gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar yr unigolyn, ac edrych ar y cryfderau oedd ar gael iddi. Yn sgil y gefnogaeth a roddwyd, gwnaeth nifer o newidiadau, yn cynnwys dod â pherthynas dreisgar i ben, symud tŷ ac adeiladu ei gwytnwch, i'w galluogi hi i edrych ar ôl ei phlant yn annibynnol unwaith eto. Bellach, mae'r plant wedi'u tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Cyflwynir adroddiadau chwarterol manwl ar gyflawni IFSS Canolbarth a Gorllewin Cymru i Lywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan yr Uned Cydweithredu Rhanbarthol.

# 9. Edrych tuag at y dyfodol

Wrth i ni symud ymlaen i 2018-19, gall y Bwrdd fod yn hyderus bod sylfeini cadarn wedi'u gosod er mwyn adeiladu wrth barhau i drawsffurfio ac integreiddio gofal a chymorth yng Nghymru. Rydym ar adeg hanfodol ar ein taith lle mae gennym gyfleoedd sylweddol i newid yn gyflymach. Bydd hyn yn cynnwys:

- **Cadarnhau** – er enghraifft, ymestyn trefniadau cronfeydd ar y cyd i feysydd gwasanaeth ychwanegol a datblygu ein hymagwedd i atal
- **Arloesedd** – profi modelau ac ymagweddau newydd i ofalu a chymorth ac ehangu'r rhain lle gellir rhoi tystiolaeth o effeithiau cadarnhaol
- **Cyd-gynhyrchu** – cynnwys yr holl randdeiliaid wrth ddylunio, cyflawni ac adolygu gofal a chymorth yng Ngorllewin Cymru
- **Prif-ffrydio ymagweddau llwyddiannus** o fewn ein gwasanaethau craidd, drwy raglenni megis 'Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol'
- **Cymryd ymagwedd radical a rhanbarthol** lle bynnag y bo hynny'n bosib mewn ymateb i'r heriau o fewn yr Adolygiad Seneddol
- **Arweinyddiaeth gynaliadwy, gydweithredol** – datblygu'r Bwrdd a'r bartneriaeth ehangach ymhellach a hyrwyddo egwyddorion integreiddio

Mae ein Cynllun Ardal yn darparu llwybr lefel uchel ar gyfer newid yn barhaus. Edrychwn ymlaen at adrodd ar ein cynnydd pellach yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf.

## Am ragor o wybodaeth:

**Ewch i wefan Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn [www.wwcp.org.uk](http://www.wwcp.org.uk)**

**Anfonwch e-bost i ni yn [wwcp@sirgar.gov.uk](mailto:wwcp@sirgar.gov.uk)**

**neu**

**Ffoniwch ni ar 01267 228756**




**Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru**

**Mehefin 2018**